**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**16 Awst 2024**

0900 – 1230

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Alexia Course, Jan Chaudhry Van der Velde a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Heather Clash a Marie Daly.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae James Price, Heather Clash ac Alexia Course yn aelodau dros dro o Fwrdd Ffeibr TrC. Julian Edwards yw rheolwr-gyfarwyddwr dros dro Cross Country Trains Ltd.

**2. Sylw i ddiogelwch.**
Trafododd y Bwrdd ddefnyddio cronfa ddata asesu risg PTI RSSB.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Cafwyd trafodaeth am y gostyngiad yn nifer y cwynion gan gwsmeriaid dros y 12 mis diwethaf oherwydd gwell gwasanaeth a'r gwaith a wnaed i reoli'r broses yn well.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 19 Gorffennaf 2024. Nodwyd y Log Camau Gweithredu. Cytunwyd y dylid trafod cyfran y farchnad mewn cyfarfod o'r Tîm Arwain Gweithredol yn y dyfodol.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Roedd adolygiad y Prif Swyddog Gweithrediadau yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Mae MKIVs yn perfformio'n dda iawn ond mae materion peirianneg Class 158 diweddar yn achosi problemau. Trafododd y Bwrdd baratoadau'r Hydref a nododd y bwriad i ddefnyddio turnau y tu allan i'r

rhwydwaith. Trafododd y Bwrdd rinweddau amserlen sy'n benodol i'r Hydref ond cytunwyd na fyddai hyn yn ymarferol ac y dylid rhoi rhagor o bwysau ar Network Rail ac AIW.

- 
- Cynhaliwyd gwasanaeth da yn ystod yr Eisteddfod a chafwyd adborth cadarnhaol. Diolchwyd i'r timau am eu hymdrechion.
- 
- Croesawodd y Bwrdd y cynnydd mewn cyfraddau sganio ar y trên.

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda thurn Caergybi, gweithredu rhaglen Machbang, trafodaethau cyflog a pherfformiad y goruchwylwyr.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad yr Eisteddfod a aeth yn dda gydag adborth da. Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â chanfod y ffordd yn ystod digwyddiadau.

Cafwyd trafodaeth am adroddiad diweddar am droseddau yn erbyn merched a menywod ar draws y DU. Cytunodd y Bwrdd i gysylltu â TfL i ddysgu gwersi ac i gryfhau strategaeth ddiogelwch TrC **[Cam gweithredu Leyton Powell]**. Pwysleisiodd y Bwrdd hefyd fod angen mynd i'r afael â'r mater drwy synnwyr amlasiantaeth heb ei gyfyngu i drafnidiaeth gyhoeddus. Ailadroddodd y Bwrdd ddull dim goddefgarwch o fynd i'r afael â'r mater. Roedd y Bwrdd hefyd wedi trafod y golygfeydd annymunol yn Nhon Pentre a chafodd wybod am y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i hynny.

Gofynnodd y Bwrdd am ragor o sylwadau a gwybodaeth am y ffigurau a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn trafod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r targedau **[Cam gweithredu Peter Strachan a Leyton Powell]**.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**
Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**7. Y Newyddion Diweddaraf am y Gororau**
*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*
Croesawodd y Bwrdd y newyddion mai'r wythnos diwethaf oedd y gorau erioed o ran ffigurau refeniw, gyda mentrau ar y gweill i hybu rhagor o dwf.

Nododd y Bwrdd mai Cyfnod 4 oedd yr ail gyfnod uchaf o refeniw arlwyo yn y Gororau ar ôl Covid; mae refeniw teithiau pell wedi bod yn tangyflawni yn erbyn y gyllideb ond mae'n gwella. Ar gyfer y gwasanaeth rhwng

Caerdydd a Manceinion, mae'r refeniw dosbarth cyntaf yn fwy na'r gyllideb sy'n cynhyrchu cyfartaledd yr wythnos. Roedd y Bwrdd yn croesawu bod TrC newydd ymuno â Fforwm Arlwyo Rheilffyrdd y DU.

Yng Nghyfnod 4, darparwyd 88.6% o'r gwasanaethau MKIV arfaethedig sy'n cynrychioli'r perfformiad cryfaf erioed. Hefyd yng Nghyfnod 4, mae'r pwysau ar argaeledd unedau o ganlyniad i welliannau i amserlenni wedi creu cynnydd bach yn nifer y ffurfiannau dau gerbyd. Mae gwell dibynadwyedd a chwblhau'r rhaglen 5+2 ar gyfer MKIVs wedi golygu bod mwy o wasanaethau pum cerbyd yn cael eu darparu.

Gorlenwi oedd y prif reswm dros gwynion ar draws y rhwydwaith ond roedd 43% yn is na'r llynedd a 79% yn is na'r cyfnod gwaethaf y llynedd. Roedd y Bwrdd yn croesawu'r sylw cadarnhaol a gafwyd yn y cyfryngau'n ddiweddar i'r gwasanaeth dosbarth cyntaf. Nododd y Bwrdd ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r cynnig dosbarth cyntaf ar y wefan a bod angen rhoi mwy o amlygrwydd iddo **[Cam gweithredu Piers Croft i drafod â Lewis Brencher]**. Gofynnodd y Bwrdd hefyd am yr hyn a ddysgwyd ar arweinyddiaeth **gwasanaethau'r Gororau [cam gweithredu Piers Croft]**

**8. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Cathryn Davey â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd adolygiad ariannol Cyfnod 3 y Rheilffyrdd a ffigurau'r flwyddyn hyd yma, gan gynnwys y canlyniadau refeniw cadarnhaol diweddar, costau staff ffafriol oherwydd swyddi gwag ac alldro cyffredinol.

*Gadawodd Cathryn Davey y cyfarfod.*

**9. Diweddariad masnachol**

*Ymunodd Chris Williams â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau refeniw a oedd yn gadarnhaol yn ystod y cyfnod ac o un flwyddyn i'r llall, a chanlyniad refeniw Cyfnod 4 oedd yr uchaf erioed i TrC ei gyflawni. Roedd y Bwrdd yn croesawu bod TrC yn dal i wneud yn well na'r diwydiant drwyddo draw o ran refeniw teithwyr, niferoedd ac adenillon wrth gymharu â'r sefyllfa cyn COVID. Mae canlyniadau Cyfnod 5 hyd yma yn galonogol hefyd.

**10. Prisiau tocynnau plant**

Trafododd y Bwrdd brisiau tocynnau plant.

**11. Talu wrth Fynd**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno Talu wrth Fynd.

**12. Ffioedd Meysydd Parcio**

Trafododd y Bwrdd opsiynau posibl o ran ffioedd parcio ceir.

*Gadawodd Chris Williams y cyfarfod.*

**Unrhyw Fater Arall**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**